**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**
**DYDD IAU, 18 IONAWR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau, 18 Ionawr 2018.

**YN BRESENNOL:** **Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Paul Cunningham, Andy Dunbobbin, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White a David Williams

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** David Hytch a Rebecca Stark

**YMDDIHEURIADAU:** Lynn Bartlett, Bernard Stuart

**CYFRANNWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg, Prif Weithredwr; Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid); Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion a Rheolwr Cyllid (Addysg ac Ieuenctid)

**YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

## 32. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Cunningham i'r Cadeirydd os oedd angen i Aelodau sy'n lywodraethwyr ysgol i Ddatgan Cysylltiad. Cadarnhawyd nad oedd gwrthdaro buddiannau a bod cofnod wedi'i gymryd yn barod o ddatganiadau cysylltiad gan Aelodau.

## 33. COFNODION

Roedd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2017 wedi'u dosbarthu i'r Aelodau gyda'r rhaglen.

Materion yn Codi

Ar dudalen 6 o'r cofnodion, gofynnodd y Cynghorydd Mackie os oedd yr Hwylusydd wedi anfon pryderon y Pwyllgor i'r Tîm Perfformiad ynglŷn â fformatio adroddiadau ac a fyddai'n bosib rhoi hyfforddiant i Aelodau er mwyn iddyn nhw gael gwell dealltwriaeth o adroddiadau perfformiad. Cadarnhaodd yr Hwylusydd bod y pryderon wedi cael eu hanfon ymlaen a bod cais wedi'i wneud am hyfforddiant i gael ei ychwanegu i'r Rhaglen Hyfforddiant i Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mackie am ei ymholiad am 'y ganran o bobl ifanc 16-18 oed yn y system cyfiawnder ieuenctid sydd wedi cael cynnig addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth' o fewn yr adroddiad perfformiad fe gytunodd yr Hwylusydd i fynd ar ôl yr adroddiad.

Yn dilyn sylwad gan y Cynghorydd Heesom ynghylch y diffyg Gwasanaethau Ieuenctid yng ngorllewin y Sir a chwestiwn ar yr adroddiad i gael ei gyflwyno i gyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol, cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid) bod y ddau adroddiad canlynol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod Pwyllgor 12 Ebrill 2018:-

- Cyngor Ieuenctid - *rhoi diweddariad ar gynnydd*
- Gwasanaethau Ieuenctid Integredig - *i ddarparu diweddariad manwl ar ddarpariaeth cyffredinol y Gwasanaethau Ieuenctid Integredig*

Dyma’r Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid) yn diolch i'r Cynghorydd Kevin Hughes am baratoi erthygl y wasg ddiweddar am gyfryngau cymdeithasol a diogelwch rhyngrwyd mewn ysgolion sydd wedi helpu i godi proffil y gefnogaeth sy’n cael ei roi gan y Cyngor i blant, pobl ifanc ac athrawon.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

**34. BALANSAU YSGOLION**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad sy’n rhoi dadansoddiad o falansau wrth gefn ar gyfer pob ysgol yn Sir y Fflint fel ag y mae ddiwedd Mawrth 2017, a'r balansau wrth gefn terfynol gan ysgolion ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn Sir y Fflint, mae cyllidebau ysgolion uwchradd wedi bod dan bwysau parhaus gyda saith o ysgolion uwchradd yn dangos diffyg erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yn dangos y byddai'r sefyllfa yn gwaethygu gyda'r posibilrwydd y byddai mwy o ysgolion yn mynd i ddiffyg ariannol a byddai'r lefel cyffredinol o ysgolion uwchradd mewn diffyg ariannol yn cynyddu.

Yn unol â pholisi’r Cyngor mae’n rhaid i'r ysgolion ddarparu datganiad ar sut y maen nhw'n bwriadu defnyddio unrhyw arian dros ben sy’n fwy na £50,000 i ysgolion cynradd a dros £100,000 i ysgolion uwchradd ac ysgolion arbenigol. Mae’r Tîm Cyfrifeg Ysgolion wedi gofyn am, ac wedi archwilio’r wybodaeth benodol hwn.

O ganlyniad, mae’r Rheolwr Cyllid (Addysg ac Ieuenctid) wedi cynghori nad oes gan Lywodraethwyr unrhyw hawl gyfreithiol i osod diffyg cyllidebol heb ganiatâd y Cyngor, ac ni ddylai gymryd yn ganiataol y rhoddir caniatâd o'r fath. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ystyried cymeradwyo diffyg trwyddedig i ysgol lle mae'n cytuno bod yna amgylchiadau lle byddai'n afresymol gofyn i ysgol gydbwyso ei gyllidebau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Dywedodd Mrs. Rebecca Stark am y sefyllfa ariannol sy’n gwaethygu i ysgolion wrth symud ymlaen a gofynnodd sut y mae ysgolion yn parhau i gael eu hariannu os yw'r holl ysgolion mewn diffyg ariannol. Dywedodd hefyd nad yw Estyn yn cymryd y pwysau ariannol ar ysgolion i ystyriaeth. Cynghorodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol os yw’r holl ysgolion mewn diffyg ariannol yna byddai angen darparu cyllid drwy gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Ychwanegodd

yr Aelod Cabinet dros Addysg bod y diffyg ariannol presennol yn bodoli gan fod ysgolion yn cadw arian yn weddill ond wrth i fwy o ysgolion fod a diffyg ariannol byddai hynny'n risg ariannol corfforaethol i'r Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd David Williams pe bai modd ychwanegu colofn arall ar adroddiadau'r dyfodol yn dangos nifer disgyblion ym mhob ysgol. Cytunodd y Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid) i edrych ar y posibilrwydd o ychwanegu colofn ychwanegol ar gyfer niferoedd disgyblion yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi balansau ysgol fel ag y maent ar 31 Mawrth 2017.

## 35. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2018/ 19 - CYNIGION CAM DAU AR GYFER LEFEL FFORMIWLA ARIANNU YSGOLION

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cynigion ail gam ar gyfer lefel fformiwla ariannu ysgolion ar gyfer Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2018/19. Amlinellodd yr adroddiad y risgiau a lleihadau cynigion o'r fath ar ddarparu gwasanaethau addysg o ansawdd yn Sir y Fflint a darparu gwybodaeth gyd-destunol ar y lefel bresennol o falansau ysgol, lleihadau mewn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru (LlC) a rhagolwg o'r pwysau cost chwyddiannol yn wynebu ysgolion.

Cymeradwyodd y Cyngor yn ei gyfarfod mis Rhagfyr yr ail gam o'r gyllideb i Gyllideb Ariannu'r Cyngor 2018/19 yn unol â nifer o gynigion penodol yn cael eu cyfeirio at bwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w harchwilio yn fanwl cyn ystyriaeth bellach gan y Cabinet ac yna'r Cyngor. Un o'r cynigion cyllideb benodol oedd bod ysgolion ond yn derbyn setliad 'arian gwastad' ar gyfer 2018/19 gan greu effeithiolrwydd o £1.143m a bod addasiadau i gyllideb yr ysgol yn cael eu gwneud yn seiliedig ar ddemograffeg disgybl gan arbed £0.288m pellach.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr, er yr heriau o gyni cyllideb dros gyfnod estynedig, bod y Cyngor wedi llwyddo i ddarparu graddfa fechan o amddiffyniad ariannol o gyllid dirprwyedig i ysgolion ac wedi cwrdd â chodiadau canran amddiffyn Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion. Mae sefyllfa ariannol heriol lle mae angen i'r Cyngor ystyried gosod cyllideb 'arian gwastad' i ysgolion wedi cael ei greu gan bolisïau wedi'u gosod yn genedlaethol a oedd heb eu hariannu h.y. dyfarniadau cyflog i athrawon a staff cefnogi a chynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol cyflogwyr.

Adroddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod Ysgolion wedi bod yn rhagweithiol mewn addasu i leihau lefelau cyllido ac wedi adolygu eu cyllidebau yn llym i amsugno pwysau wrth ganolbwyntio ar gynnal y gwaith o ddarparu cwricwlwm o ansawdd a gwella canlyniadau dysgwyr. Trafodaethau agored a gonest yn cael eu cynnal gydag Ysgolion gyda rhai yn cael eu dwyn i'r amlwg ar gyfer heriau ariannol yn fwy nag eraill. Risg pellach i gyllidebau ysgol oedd y lleihad mewn grantiau penodol ym Mhortffolio Addysg ac Ieuenctid fel y manylir yn yr adroddiad, gydag ysgolion yn dibynnu arnynt i ddarparu gwasanaethau eu hunain neu lle roeddent yn derbyn gwasanaethau cefnogi yn uniongyrchol gan y Cyngor.

Gwahoddodd y Cadeirydd Mrs. Rachel Molyneux, Richard Collett, Mrs. Ann Peers a Mr. John Wier i gynrychioli'r Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd i amlinellu i'r pwyllgor eu sylwadau ar y cynigion cyllideb bresennol ar gyfer ysgolion. Mae copi o'r sylwadau a wnaed ynghlwm ag Atodiadau 1 a 2 o'r cofnodion.

Dyma Arweinydd y Cyngor yn diolch i'r Penaethiaid am fynychu. Dywedodd am yr heriau parhaus o gyni cyllidol a'r heriau ariannol posib sy'n wynebu'r Cyngor ym mlynyddoedd ariannol y dyfodol pe bai'r rhaglen cyni yn parhau. Soniodd am y ceisiadau penodol wedi eu gwneud i Lywodraeth Cymru (LlC) am gyllid ychwanegol drwy gynnydd yn y Cap Ffi Gofal Cartref, adennill 50% o'r Ardoll Treth Prentis, a gwarant o gyfraniadau ariannol yn y dyfodol trwy'r Gronfa Gofal Canolraddol (CGC). Cefnogodd i'r achos gael ei roi o flaen Penaethiaid ysgol a'r angen i barhau i lobio Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gael cyllid ychwanegol i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Addysg y Penaethiaid Ysgol am eu presenoldeb a dywedodd am y sefyllfa anodd sy'n wynebu Cynghorwyr sydd eisiau gweld parhad i wella gwasanaethau i breswylwyr yn Sir y Fflint ac i beidio â gweld lleihad parhaus mewn cyllid. Dywedodd bod cyfathrebu rheolaidd wedi bod gyda Phenaethiaid ar yr heriau yn wynebu'r Cyngor mewn gosod cyllideb gytbwys a'u bod wedi mynegi eu parodrwydd i fod yn rhagweithiol trwy eu sefydliadau proffesiynol ac i apelio yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i ddangos yr heriau go iawn sy'n eu hwynebu er mwyn cynnal darpariaeth addysg gyda chyllidebau llai.

Dyma'r Cynghorydd Kevin Hughes yn diolch i'r Penaethiaid ysgol am eu presenoldeb a dywedodd bod y Cyngor yn ddyledus iddyn nhw am eu holl waith caled yn yr ysgolion ar draws Sir y Fflint. Dywedodd ers dod yn Gynghorydd bod cyfyngiadau cyllideb wedi bod yn bryder parhaus a'i fod yn cefnogi Penaethiaid ysgol, athrawon, llywodraethwyr ysgol a disgyblion trwy siarad gyda'u AS ac AC er mwyn tynnu sylw at eu pryderon ynglŷn â lleihau cyllid i'r Cyngor. Roedd nifer o Gynghorwyr yn cefnogi'r sylwadau ac yn cefnogi'r angen i barhau i lobio Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Diolchodd Mrs. Rebecca Stark i'r Arweinydd, Aelodau Cabinet a swyddogion am gyflwyno adroddiad mor anodd ac am fod yn agored a chlir gyda'r Pwyllgor ar heriau ariannol wrth symud ymlaen. Mynegodd bryderon ynglŷn â'r effaith y mae toriadau parhaus mewn cyllid yn ei gael ar athrawon a phlant a dywedodd bod angen ymateb ar y cyd i'r heriau a wynebir.

Meddai Mr. David Hytch am yr ymdrech wych gan yr holl staff dysgu ar y gwelliannau mewn perfformiad o un flwyddyn i'r llall tra bod y cyllidebau yn parhau i gael eu lleihau flwyddyn ar ôl y llall. Mynegodd bryderon am les staff dysgu o ystyried y cynnydd parhaus mewn llwyth gwaith o ganlyniad i leihau cyllid a gofynnodd a byddai modd monitro hynny wrth symud ymlaen. Dywedodd am y posibilrwydd o leihau'r diwrnod dysgu ysgol fel y cynigwyd mewn rhannau o Loegr ond yn dweud y byddai hynny'n gallu achosi problemau gofal plant a phwysau ariannol ychwanegol ar rieni a gobeithio y byddai modd gwrthsefyll hynny. Dywedodd hefyd bod y gostyngiadau parhaus yn y gyllideb wedi bod yn 'bwynt tyngedfennol' a'i fod yn cefnogi'r lobio parhaus o'r Llywodraethau.

Dywedodd y Cynghorydd Tudor Jones ei fod yn cefnogi'r sylwadau a wnaed a mynegodd bryderon am yr effaith y mae lleihau cyllidebau yn ei gael ar ysgolion bach gwledig a'r pryderon ynglŷn â'r dyfodol o gau ysgolion. Dywedodd y Cynghorydd Dave Mackie er ei fod yn deall y sefyllfa anodd sy'n wynebu swyddogion byddai'r setliad 'arian gwastad' arfaethedig ond yn paratoi plant i fethu yn y dyfodol a gofynnodd i swyddogion gydweithio gyda Phenaethiaid Ysgol i weld os gellir dod o hyd i ateb gwell. Mynegodd y Cynghorydd David Williams bryderon am y lefel o gymorth a fyddai ar gael i blant gydag anghenion ychwanegol.

Mewn ymateb i'r sylwadau a phryderon a godwyd, dywedodd y Prif Weithredwr am y dewisiadau cyfyngedig sydd ar gael i ariannu'r bwlch yn y gyllideb. Dywedodd mai Sir y Fflint sydd efo'r strwythur rheoli lleiaf yng Nghymru a bod yr holl wasanaethau wedi cael eu trawsnewid i gwrdd â'r pwysau cyllido mewn blynyddoedd a fu. Mae effeithlonrwydd posib gan GwE wedi cael ei drafod ond mae gan y Cyngor ymrwymiad cytundebol i'r gwasanaeth hynny. Roedd tystiolaeth gynyddol bod Sir y Fflint yn Gyngor sy'n derbyn cyfran isel o gyllid fesul pen yn y ffordd y mae cyllid yn cael ei ddyrannu. Mae ysgolion yn Sir y Fflint wedi eu hariannu ar lefelau is o'u cymharu a nifer o awdurdodau Cymreig eraill a bod y cyllid 'fesul disgybl' yn is na chyfartaledd Cymru. Y prif ddewisiadau ar gael i'r Cyngor wrth symud ymlaen oedd i barhau i ddarparu dadl â ffocws iddo sy'n darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru er mwyn gofyn am gymorth ariannol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith sydd wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i amddiffyn cyllidebau ysgolion;

(b) Bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y setliad 'arian gwastad' yn peri risgiau i ysgolion a'u gallu i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol;

(c) Y dylai adnoddau ychwanegol fod ar gael, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor yn rhoi codiad i gyllidebau ysgolion os o gwbl yn bosibl; a

(d) Bod y Pwyllgor yn annog yr holl bleidiau i ymgyrchu mor egnïol â phosib gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i weld cynnydd mewn cyllid cwantwm.

**36. RHAGLEN YSGOLION AR GYFER YR 21AIN GANRIF LLYWODRAETH CYMRU (LLC) A RHAGLEN ADDYSG BAND B A'R MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad sydd yn amlinellu prosiectau sydd wedi'u cynnwys o fewn cyflwyniad Cynllun Amlinellol Strategol (CAS) y Cyngor i Lywodraeth Cymru (LlC). Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r egwyddorion a ddefnyddiwyd a'r rhagdybiaethau a wnaed i ddarparu rhaglen sy'n cael yr effaith lleiaf posib ar gyllidebau refeniw'r dyfodol a gwybodaeth am y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC).

Cynghorodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion eto i gael ei gymeradwyo gan Cabinet. Eglurodd bod LlC wedi gofyn am flaenoriaeth i'r holl raglenni, er o ystyried y byddai'r rhaglen gymhleth o gwmpas am gyfnod o 5/6 mlynedd byddai angen bod yn hyblyg o ran blaenoriaethu gyda'r Bwrdd Rhaglen Addysg yn parhau i adolygu'r rhaglen.

Mewn ymateb i gwestiynau am yr MBC, eglurodd yr Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion mai dyma ffurf newydd LlC o Bartneriaeth Cyhoeddus neu Fenter Cyllid Preifat (MCP). Trwy'r gwasanaeth hwn byddai'r Cyngor yn derbyn cyfradd ymyrraeth o 75% o gyllid gan Lywodraeth Cymru gyda 25% o gyllid gan y Cyngor dros gyfnod o 25 mlynedd. Byddai'r cyllid gan LlC yn cael ei dderbyn trwy grant penodol.

Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, dywedodd y Prif Swyddog trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) bod y Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i helpu Llywodraeth Cymru (LlC) i gyrraedd ei tharged uchelgeisiol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mynegodd y Cynghorydd Tudor Jones ei gefnogaeth i ysgolion gwledig a ddylai yn ei farn ef gael eu cynnal yn weithgar. Dywedodd hefyd am yr angen i ddatblygu ffederasiwn yn weithgar a chynnig bod unrhyw gyfeiriad at gau ysgol wledig yn cael ei dynnu allan o'r rhaglen. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Patrick Heesom. O'i roi i bleidlais, gwrthodwyd y cynnig.

Cwestiynodd Mrs. Rebecca Stark os y dylid ystyried yr adroddiad mewn fforwm cyhoeddus a mynegodd ei phryderon am yr effaith y byddai cynigion o'r fath yn ei gael ar leoliadau ysgol. Ymateb y Prif Swyddog oedd bod yr holl ysgolion wedi cael eu briffio gyda thrafodaethau yn cael eu cynnal â'r holl Benaethiaid ysgol yn unigol ar y rhaglen ac eglurwyd mai cyfres o gynigion dros dro oedden nhw ar y cyfnod hwn.

Gofynnodd Mr. David Hytch am wybodaeth ar y tir yn Ysgol Maes Edwin ac Ysgol Llanfynydd ar ôl eu cau. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion bod y dewisiadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer tir yn Ysgol Maes Edwin a bod y tir yn Ysgol Llanfynydd wedi cael ei werthu.

**PENDERFYNWYD:**

Bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ar ddydd Mawrth 23 Ionawr 2018.

## 37. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol er mwyn ei hystyried a chynghorwyd bod yr eitemau a nodwyd yn ystod y cyfarfod ar Wasanaethau Ieuenctid yn cael eu hychwanegu i'r rhestr o eitemau ar gyfer cyfarfod 12 Ebrill 2018.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diwygio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i’r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**38. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd 35 aelod o’r cyhoedd ac un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 yp a daeth i ben am 5.24 yp)

....................................................

**Cadeirydd**

**Atodiad 1**

Mae hwn yn ymateb ar y cyd gan Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Sir y Fflint o ran y gyllideb arian gwastad arfaethedig ar gyfer ysgolion Sir y Fflint. Mae'r ALI wedi bod yn glir gyda'r Ffederasiwn am y sefyllfa ac maent wedi gwneud beth gallant i ddiogelu ysgolion rhag y mesurau cynni hyd yma.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan blant hawl i gael mynediad i addysg o ansawdd da a bod ysgolion yn bryderus iawn, er eu bod yn gwybod SUT i ddarparu'r hawliau hyn, nid oes ganddynt ddigon o gyllid i wneud beth maen nhw'n credu ynddo yn angerddol.

Mae gan lawer o ysgolion lai o staff oherwydd toriadau i'r gyllideb ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar safonau.

Mae ysgolion Sir y Fflint wedi gwella yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol Dau felly rydym yn cael ein cosbi oherwydd os gallwn godi safonau gyda chyllid isel, pam ddylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o arian i addysg.

Onid yw'n amser dweud mai digon yw digon, nid oes unrhyw le arall i dorri arian. Rydym yn eich annog i ailystyried y cynnig a fydd yn effeithio ar blant yn Sir y Fflint ac ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol.

**Atodiad 2**

Mae hwn yn ymateb ar y cyd gan Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd Sir y Fflint o ran y gyllideb arian gwastad arfaethedig ar gyfer ysgolion Sir y Fflint. Mae'r ALl wedi bod yn glir gyda'r Ffederasiwn am y sefyllfa ac maent wedi gwneud beth gallant i ddiogelu ysgolion rhag y mesurau cynni hyd yma.

Mae ein hymateb ar ran y budd-ddeiliaid allweddol, rhai nad oes ganddynt lais, a'r rhai y bydd cynnig arian gwastad yn effeithio arnynt fwyaf, y bobl ifanc sy'n mynychu ein hysgolion eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Hoffem amlygu'r effaith niweidiol y bydd hyn yn ei chael ar eu cyfleoedd, eu cyfoethogiad addysgol a'u canlyniadau a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y pen draw.

Mae Sir y Fflint ar y ffin â Lloegr lle mae myfyrwyr yn cael mynediad i'w haddysg drwy awdurdod Swydd Gaer. Pe bai unrhyw ostyngiad pellach o ran cyllid yn digwydd, rydym yn rhoi ein dysgwyr dan anfantais ym maes cystadleuol lleoedd Safon Uwch a chyfyngu eu cwmpas ar gyfer darpariaeth ôl-16.

Ni all fod yn achos o loteri cod post o ran pwy gaiff fargen well, siawns?

Mae blaenoriaethau addysgol Llywodraeth Cymru yn rhai y mae pob Pennaeth yn eu cefnogi. Addysg o safon ar gyfer y bobl ifanc yng Nghymru sy'n ceisio negyddu effaith tlodi ar ganlyniadau a gwella Llythrennedd a Rhifedd pobl yn genedlaethol fel bod modd iddynt gystadlu yn y farchnad fyd-eang. Yn syml, ni ellir bodloni'r amcanion hyn yn ein hysgolion gyda chyllideb arian gwastad.

Bydd diswyddiadau yn realiti, gan gynyddu maint dosbarthiadau. Mae tair o'r ysgolion yn Sir y Fflint eisoes wedi cyrraedd eu Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd (PAN) o ran data derbyn ar gyfer 2018 ar gyfer blwyddyn 7, ac mae'r achos cau mwyaf diweddar, sef ysgol John Summers wedi gweld nifer o blant mwyaf difreintiedig yn yr ardal yn cael mynediad i'w haddysg mewn ysgolion mwy. Mae eu hanghenion mor sylweddol mewn rhai achosion fel bod gostyngiadau pellach mae Penaethiaid eisoes yn eu hwynebu, fel gostyngiad o ran y Grant Gwella Addysg, diffyg darpariaeth yn yr awdurdod pan fydd y broses safoni wedi digwydd, a'r posibilrwydd real o ostyngiad o ran cynnig y gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) a gwasanaeth Teithwyr, yn paratoi ein pobl ifanc i fethu.

Mae'r syniad mai pobl ifanc sy'n cael prydau ysgol am ddim yw'r unig ffordd o fesur natur ddiamddiffyn, bob amser wedi bod yn ffon fesur ddi-chwaeth i rannu cyllid. Mae'n rhaid i bob ysgol a gaiff ei chynrychioli gan Benaethiaid yma heddiw ddarparu cefnogaeth a darpariaeth o ansawdd uchel i'r dysgwyr hynny sydd ag amrywiaeth o nodweddion diamddiffyn. Rhai sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal, rhai o gartrefi lle mae cam-drin domestig yn digwydd, lle mae eu teuluoedd o gefndir troseddol, lle mae materion iechyd meddwl, mae'r rhestr yn faith.

Mewn termau real, mae cyllideb arian gwastad yn taro'r bobl ifanc mwyaf diamddiffyn yn ein hysgolion fwyaf, drwy leihau nifer y staff cymorth, yr ymyrraeth 1.1 i wella sgiliau Llythrennedd a Rhifedd, gwaith grŵp bach i wella canlyniadau TGAU a swyddi allweddol fel cefnogaeth fugeiliol. Bydd ehangder y Cwricwlwm wedi'i leihau ac ni fydd dysgwyr yn cael mynediad i gyrsiau y byddent yn sicr yn cael eu cynnig mewn awdurdodau eraill.

Mae’r pwysau ar ysgolion i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i ddysgwyr sy’n ffitio’r proffil hwn yn dod i lawr i staffio priodol a’r cyllid i gynnig y ddarpariaeth gywir. Ein pryder fel Penaethiaid yw na fyddwn yn gallu ymdopi â gofynion y dysgwyr hyn. Bydd ffigurau gwahardd parhaol yn cynyddu, bydd ceisiadau safoni yn cynyddu ac mae capasiti’r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn y Sir yn gyfyngedig. Mae’r gwariant ar Ddarpariaeth y Tu Allan i’r Sir yn anghynaliadwy.

Mae recriwtio Penaethiaid yn genedlaethol bron â chyrraedd lefel argyfwng, gofynnir i ysgolion ddarparu mwy a pharhau i ddarparu ar gyfer lleihad o ran cyllideb. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf mae 29 o wahanol Benaethiaid wedi bod yn Ffederasiwn Sir y Fflint! Gwnaethon i gyd gymryd swydd Pennaeth i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc, waeth beth yw DPA a phrofion PISA, a lle rydym mewn cyd-destun Cenedlaethol a Rhyngwladol, bydd y ddarpariaeth i bobl ifanc yn ysgolion Sir y Fflint yn cael ei chyfaddawdu’n ddifrifol.

Rydym yn eich annog i ailystyried y cynnig a fydd yn effeithio ar blant yn Sir y Fflint ac ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol.